


CYMUNEDAU CRYF Â DYFODOL DISGLAIR



Cronfa Grantiau Cymunedau Cryf

Nodiadau Canllaw

Am ragor o wybodaeth a chyngor cysylltwch â thîm Datblygu Economaidd y Cyngor gyda eich syniad:

Swyddfa'r Dociau Cyngor Bro Morgannwg
Subway Road
Y Barri
CF63 4RT

E-bost: scgfapplications@valeofglamorgan.gov.uk neu
Ffôn: 01446 704636

Nodiadau Canllaw i Ymgeiswyr

Beth yw'r Gronfa Grantiau Cymunedau Cryf?

Bydd y Gronfa Grantiau Cymunedau Cryf yn cynnig grantiau i Grwpiau Cymunedol, y Sector Gwirfoddol a Chynghorau Tref a Chymuned tuag at gostau mentrau ym Mro Morgannwg sy'n helpu i gefnogi gweledigaeth y Cyngor o "gymunedau cryf gyda dyfodol disglair".

Nod y gronfa yw:

1. Gwella gwydnwch sefydliadau/grwpiau neu eu gweithgareddau drwy gyllido gweithgarwch sy'n ychwanegu gwerth at eu gwaith cyfredol a lleihau eu dibyniaeth ar arian grant yn y dyfodol;
2. Darparu cyllid sbarduno tuag at fentrau sy'n gallu dangos cynaliadwyedd tymor hwy;
3. Cynnal gwaith ymgynghori, dichonolrwydd, dylunio a gwaith arbenigol arall i ddatblygu cynigion ar gyfer gweithgareddau a cheisiadau am arian yn y dyfodol;
4. Cwrdd â chostau cyfalaf cynlluniau o'r fath drwy brynu offer, peiriannau, cyfarpar neu asedau eraill, neu
5. Ymgymryd â gwaith a fyddai'n galluogi darparu gwasanaethau, er enghraifft, trwy gynyddu'r potensial i greu incwm;
6. Gwneud cyllid Adran 106 ar gael i gymunedau penodol lle bu datblygiadau. Cyhoeddir cyllid ar gyfer cyfleusterau a phrojectau manau agored mewn ardaloedd penodol pan agorir pob rownd ar gyfer ceisiadau;

Sut mae gwneud cais?

Rhaid i ymgeiswyr lenwi ffurflen gais Grantiau Cymunedau Cryf. Rhaid i unrhyw un sy'n ystyried gwneud cais gysylltu â Thîm Datblygu Economaidd y Cyngor cyn llenwi ffurflen gais, fel y gellir asesu eu cymhwysedd ar gam cynnar.

E-bost: scgapplications@valeofglamorgan.gov.uk neu ffôn: 01446 704636

Fel arfer bydd angen gwybodaeth ychwanegol i ategu eich cais. Yn benodol, bydd angen tystiolaeth o unrhyw gydsyniadau, caniatâd neu drwyddedau sydd eu hangen i ganiatáu i chi i gyflawni eich project. Bydd hefyd yn ofynnol cael dyfynbrisiau ariannol.

Ni ystyrir ceisiadau anghyflawn neu geisiadau a gyflwynwyd heb y dogfennau ategol cywir.

Pwy all wneud cais?

Mae'r categorïau canlynol o sefydliad yn gymwys i wneud cais:

- Sefydliadau'r trydydd sector
- Cyngorau Tref a Chymuned, yn annibynnol neu mewn partneriaeth â grŵp cymunedol lle nad oes gan yr olaf statws cyfreithiol
- Consortia o'r uchod, gan gynnwys y rhai sydd wedi sefydlu trefniadau llywodraethu ffurfiol megis mentrau cymdeithasol*

** Cyfeiriwch at y 'Crynodeb Strwythurau Cyfreithiol' ar wahân i gael arweiniad ar y strwythurau cyfreithiol sydd fel arfer yn gysylltiedig â mentrau cymdeithasol a nodweddion strwythurau cymwys.*

Am faint allwn ni wneud cais?

Nid oes isafswm nac uchafswm grant ar gyfer y Gronfa Grantiau Cymunedau Cryf. Fodd bynnag, mae gwerth am arian yn ffactor asesu allweddol ac mae'r galw yn debygol o fod yn uchel. Gwahoddir ceisiadau am gyllid am 1-3 blynedd tan fis Mawrth 2020. Rydym yn annog projectau o bob maint i wneud cais.

Peidiwch â gadael i'r ffurflen hon eich digalonni - mae'r Cyngor yma i'ch cefnogi drwy'r broses o wneud cais. Rydym yn gobeithio y bydd y cymorth hwn yn eich helpu yn y dyfodol pan fyddwch yn gwneud cais am gyllid arall gan gyrff eraill.

Dylai'r swm o wybodaeth yr ydym yn disgwyl i chi ei darparu yn y ffurflen hon fod yn gymesur â faint o arian yr ydych yn gwneud cais amdano, a dim mwy na hynny. Nid yw grantiau bach angen llawer o fanylion a gallwch sgwrsio am hyn gyda'r tîm Datblygu Economaidd. Yr unig beth rydym eisiau ei wybod yw ar beth rydych am ei wario, yr hyn yr ydych yn gobeithio ei gyflawni, pwy fydd yn elwa, a sut y bydd hyn yn eich helpu yn y tymor hwy. Yn achos projectau cymhleth gwerth uwch, dylech gyflwyno cais mwy manwl.

Rhaid i'r holl arian gael ei wario erbyn Mawrth 2020, gyda chostau blynyddol yn cael eu nodi dros flynyddoedd ariannol.

Cyfanswm y gronfa dros 3 blynedd yw £672,000 tan fis Mawrth 2020

Mae **£90,000** ar gael ar gyfer projectau cyfalaf dros 3 blynedd.

Mae **£582,000** ar gael ar gyfer projectau refeniw dros 3 blynedd

Nodwyd **£30,000** o gyllid yn y gronfa gyffredinol i gefnogi ceisiadau sydd â natur arbennig o arloesol. Gwahoddir ceisiadau am y 'Gronfa Grantiau Arloesol' hon hyd at uchafswm o **£1,000** y cais.

Anogir projectau sy'n denu arian cyfatebol o ffynonellau eraill (gwirioneddol neu gefnogaeth o fath arall), ond nid yw hyn yn hanfodol. Gallwch wneud cais am 100% o'r costau.

Yn ogystal, gall cyfraniadau Adran 106 a dderbyniwyd at ddibenion Cyfleusterau Cymunedol a Mannau Agored fod ar gael o fewn ardaloedd penodol. Mae Cyngor Bro Morgannwg yn ceisio cyfraniadau gan ddatblygwyr tuag at gostau darparu neu wella seilwaith cymunedol, er mwyn lliniaru effeithiau sy'n codi o ganlyniad i'w datblygiad.

Felly, mae'n bwysig nodi mai dim ond ar gyfleusterau lle y mae datblygiad newydd wedi cyfrannu at yr angen i ddarparu neu wella cyfleusterau y gellir gwario arian Adran 106. Wrth wneud cais am unrhyw gyfraniadau Adran 106, bydd angen i ymgeiswyr ddangos fod hyn wedi cael ei ystyried.

Fel arfer mae arian A106 ar gael ar gyfer projectau cyfalaf yn unig, ond gellir hefyd cefnogi projectau refeniw sy'n cysylltu â'r anghenion a nodwyd mewn datblygiadau newydd.

Ceir mwy o wybodaeth am arian Adran 106 gan Swyddog Adran 106 y Cyngor, Charlotte Pugh: e-bost: clpugh@bromorgannwg.gov.uk.

Ceir crynodeb o'r cytundebau Adran 106 presennol a lofnodwyd [yma](#)

Bydd yr arian Adran 106 sydd ar gael ar gyfer ardaloedd penodol yn cael cyhoedduswydd ar ddechrau pob un o'r 3 rownd ariannu bob blwyddyn, ac maent yn ychwanegol at y Gronfa Cymunedau Cryf graidd.

Beth ellir ei gefnogi?

Dyma rai enghreifftiau o bethau y gellir eu cefnogi. (Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr).

- Projectau sy'n gwella gallu'r ymgeisydd i gynhyrchu incwm
- Projectau sy'n cefnogi ymgeisydd i gymryd ymlaen a chynnal ased
- Astudiaethau dichonoldeb, mapio cymunedol a dylunio manwl i baratoi ar gyfer ceisiadau am arian
- Ariannu o un flwyddyn i'r llall os gall y projectau arddangos cynaliadwyedd yn y tymor hwy
- Prynu a llogi offer, peiriannau neu asedau eraill
- Costau marchnata a chyfieithu
- Gwaith cyfalaf, yn cynnwys adnewyddu adeiladau a manau agored
- Buddsoddiadau sy'n lleihau costau rhedeg y sefydliad ymgeisiol yn y tymor hir
- Buddsoddiadau sy'n gwella effeithlonrwydd y sefydliad ymgeisiol
- Gweithgareddau sy'n cyfuno adnoddau ar draws nifer o sefydliadau er mwyn arbed costau
- Ymchwil a chostau ymgynghori eraill
- Costau Staff Project
- Hyfforddiant
- Teithio a chynhaliadau sy'n gysylltiedig â'r project, gan gynnwys treuliau gwirfoddolwyr
- TAW anadferadwy
- Llogi lleoliadau
- Cyfraniad at gostau cyffredinol project hyd at uchafswm o 10% o gyfanswm gwerth yr ariannu yr ymgeisir amdano

Beth na ellir ei gefnogi?

Mae'r canlynol yn enghreifftiau o bethau na ellir yn gyffredinol eu cefnogi. (Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr).

- Costau rhedeg o ddydd i ddydd (e.e. staff craidd, biliau cyfleustodau, treth y cyngor, rhent ac yswiriant)
- Projectau sy'n gymwys i gael cymorth gan Gynlluniau eraill y Cyngor, e.e. Cronfa Digwyddiadau
- Projectau nad ydynt yn cyd-fynd â Chynllun Corfforaethol y Cyngor
- Projectau nad ydynt yn gallu dangos angen
- Digwyddiadau codi arian unwaith ac am byth
- Projectau sy'n digwydd neu'n dechrau cyn i ni gadarnhau ein grant
- Eitemau sydd o fudd i unigolion yn bennaf (er enghraifft, offer nad yw'n cael ei rannu)
- Gweithgareddau crefyddol neu wleidyddol, gan gynnwys grwpiau ymgyrchu
- Lletygarwch e.e. prynu alcohol
- Atgyweiriadau a chynnal a chadw arferol - e.e. gwasanaethu bwyleri, torri gwair
- Projectau nad ydynt yn cael eu cynnal ym Mro Morgannwg
- TAW y gellir ei adennill

Faint ddylwn i ei ysgrifennu yn fy nghais?

Peidiwch ag anghofio nad ydym yn chwilio am lawer o fanylion ar gyfer grantiau bach. Dylai maint y wybodaeth a roddwch i ni yn y cais hwn fod yn gymesur â faint o arian yr ydych yn chwilio amdano. E.e. mae ychydig linellau ym mhob adran yn ddigon i ni ar gyfer cefnogi grant bach ar gyfer offer. Os ydych yn ansicr - gofynnwch.

Gall yr enghreifftiau dilynol eich helpu i farnu cymhwysedd eich project.

Beth fyddem yn ei gefnogi: Astudiaeth achos 1

Y Gegin Gymunedol

Mae cymuned yn nodi'r angen am glwb cinio drwy siarad â defnyddwyr y ganolfan gymunedol a thrigolion eraill. Gallai'r gegin hon hefyd gael ei defnyddio ar gyfer priodasau ac achlysuron eraill, gan wneud y cyfleuster yn gyffredinol fwy cynaliadwy. Nid oes gan y Neuadd gegin o radd fasnachol. Gellid defnyddio cyllid i brynu offer a gosod y gegin. Gallai'r gronfa hefyd gefnogi hyfforddi gwirfoddolwyr a marchnata'r clwb ei hun. Hefyd gellid cynnig cefnogaeth farchnata ar gyfer y gegin newydd. Byddai'r clwb cinio yn talu ei chostau ac yn cynhyrchu incwm ychwanegol drwy godi tâl priodol, a fyddai'n caniatáu buddsoddi mewn offer newydd yn y dyfodol.

Enghraifft o gostau

Gosod cegin newydd ac offer arall yn y ganolfan gymunedol	£22,600
Cydlynedd project/ gwirfoddolwyr dros 2 flynedd (rhan-amser)	£5,000
Hyfforddi ac ardystio gwirfoddolwyr	£1,800
Costau teithio i'r gwirfoddolwyr	£300
Deunyddiau marchnata (deunyddiau dros dro, taflenni a 2 hysbyseb yn y wasg leol)	£880
Datblygu bwydlen	£600
Cyfanswm cost y project	£31,180

Yr hyn na fyddem yn ei gefnogi:

Mae cymuned yn credu y byddai clwb cinio yn gweithio ac yn awyddus i dalu i gwmni arlwyo ddod i mewn a darparu'r gwasanaeth hwn drwy ddefnyddio'r cyfleuster presennol. Mae eisiau talu iddi ei hun am logi ystafell a thalu staff sesiwn i gefnogi'r gweithgarwch. Mae'n bwriadu codi swm nominal am ginio neu ei gynnig am ddim, sy'n golygu bod y grant yn rhoi cymhorthdal tuag at gostau rhedeg y gwasanaeth hwn.

Beth fyddem yn ei gefnogi: Astudiaeth achos 2

Grwpiau ieuencid ar Waith

Mae nifer o grwpiau ieuencid yn y Barri yn dod at ei gilydd i brynu gwerth £750 o offer golchi ceir, marchnata, a rhai stondinau digwyddiadau er mwyn cynhyrchu arian ar gyfer teithiau dydd ac offer. Maent yn gweithio gyda gweithredwyr digwyddiadau lleol i gynnig y gwasanaeth hwn yn Sioe y Fro a digwyddiadau eraill. Defnyddiant yr arian a gynhyrchir i ariannu teithiau hamdden ar gyfer y grwpiau.

Enghraifft o gostau

Offer golchi	£450
Gasebo	£200
Marchnata	£50
Blwch arian	£50

Cyfanswm cost y project **£750**

Yr hyn na fyddem yn ei gefnogi:

Cost 88 o dripriau dydd i grwpiau ieuencid i fferm gymunedol neu barc antur bob blwyddyn.

Beth fyddem yn ei gefnogi: Astudiaeth achos 3

Projectau hyfforddi a chyflogaeth defnyddwyr gwasanaeth - Arlwyo

Mae sefydliad a arweinir gan y gymuned yn nodi cyfleoedd hyfforddiant ar gyfer ei ddefnyddwyr gwasanaeth drwy sefydlu caffi cymunedol. Gellid defnyddio'r arian i ddatblygu'r gofod caffi, darparu arian sbarduno ar gyfer costau rhent a staffio. Byddai gwirfoddolwyr yn ennill sgiliau gwerthfawr dros gyfnod o 3 blynedd, a gobeithio symud ymlaen i gyflogaeth. Byddai'r caffi hefyd wedi datblygu sylfaen cwsmeriaid ac incwm rheolaidd dros y cyfnod hwn er mwyn ei alluogi i dalu costau yn y tymor hwy.

Enghraifft o gostau

Gosod cegin newydd	£12,600
Rhent ar gyfer gofod @ £2,000pa	£6,000
Cydlynedd project/ gwirfoddolwyr dros 3 bl	£20,000
Costau teithio i'r gwirfoddolwyr	£1200
Deunyddiau marchnata (deunyddiau dros dro, taflenni a 2 hysbyseb yn y wasg leol)	£1500
Cyfanswm cost y project	£41,300

Yr hyn na fyddem yn ei gefnogi

Cost swyddog hyfforddiant i hyfforddi 36 o gleientiaid mewn sgiliau arlwyo mewn amgylchedd ystafell ddsbarth. Ni ellir adnabod unrhyw incwm tymor hir drwy'r dull hwn. Byddai'r project yn dod i ben ar ôl tair blynedd.

Beth fyddem yn ei gefnogi: Astudiaeth achos 4

Hwb a Gardd Gymunedol

Mae cymuned yn nodi'r angen am hwb cymunedol yn yr ardal oherwydd pwysau cynyddol ar ei chyfleusterau presennol yn sgil datblygiad tai newydd ar gyrion y pentref. Mae Adran 106 ar gael i'r pentref dan sylw. Gallai'r arian gael ei roi mewn dau gam i gefnogi arolygon cymunedol manwl a dyluniadau dilynol o gyfleusterau newydd. Nododd y gymuned yr angen am hwb cymunedol, yn cynnwys ystafell TGCh, siop goffi a chyfleusterau crèche. Hefyd nodwyd yr angen am ardd gymunedol mewn llety preswyl cyfagos ar gyfer pobl hŷn. Gallai'r projectau hyn wedyn gael eu costio a gellid dyfarnu grant 2 gam, yn amodol ar gymeradwyaeth yr Aelodau Ward lleol.

Yr hyn na fyddem yn ei gefnogi.

Cynnig gan nifer cyfyngedig o drigolion i adeiladu man chwarae, heb unrhyw dystiolaeth o angen am gyfleusterau o'r fath. Gall y Cyngor gefnogi trigolion i adnabod angen drwy ei becyn cymorth mapio cymunedol. Gwylwch [y fideo byr hwn](#) ar ein Sianel YouTube i glywed am rhai cymunedau yn y Fro sydd wedi cymryd rhan.

Beth fyddem yn ei gefnogi: Astudiaeth achos 5

Cymryd asedau ymlaen – Clwb chwaraeon

Mae clwb bowlio yn cymryd ased ymlaen sy'n eiddo ar hyn o bryd i'r Cyngor, ac sydd â threfniant presennol gyda chontractwyr i dorri'r gwair. Ni all fforddio gwneud hyn unwaith y cymerir yr ased drosodd gan y clwb. Mae'n gweithio gyda dau glwb cyfagos arall i weld sut y gallant leihau costau torri gwair a phaentio. Penderfynwyd y byddai peiriant torri gwair ac ôl-gerbyd i gludo yn eu helpu i leihau costau. Mae'r clwb yn meddwl y gellir defnyddio'r peiriant torri gwair a gwirfoddolwyr i gynnig gwasanaethau mewn clybiau eraill ar draws y Sir. Byddai'r tâl am y gwasanaeth hwn yn helpu i dalu'r costau rhedeg.

Maent hefyd yn credu y gallai'r clwb gael ei rentu allan ar gyfer cynadleddau a digwyddiadau, ac felly maent wedi gofyn am rhywfaint o offer cynadleddau.

Enghraifft o gostau

Peiriant torri gwair arbenigol	£8,000
Ôl-gerbyd a 3 'hook-up' i gludo rhwng clybiau	£1,800
Hyfforddiant iechyd a diogelwch	£600
3 x siediau a chloeau diogelwch	£1,500
Taflunydd, sgrin ac offer siart troi	£1,000
Cyfanswm cost y project	£12,900

Yr hyn na fyddem yn ei gefnogi:

Cost torri gwair am 3 blynedd gan contractwr garddio

Prydles 3 blynedd ar beiriant torri gwair (beth sy'n digwydd ar ddiwedd y 3 blynedd?)

Costau gwasanaeth a thrwsio parhaus y peiriant torri gwair

A ydwi i'n cynnwys TAW yn fy nghais?

Dim ond os nad ydych yn gallu ei hawlio'n ôl gan Gyllid a Thollau EM y cewch gynnwys TAW yn y cais. Mae'r ymgeiswyr yn gyfrifol am gymryd cyngor ar TAW. Yn anffodus, ni all y Cyngor gynnig y cyngor hwn.

Pa mor hir mae grant yn para?

Mae arian ar gael tan 31 Mawrth 2020, ond mae'n rhaid ei wario a'i hawlio erbyn y dyddiad hwn. Os bydd eich cais yn llwyddiannus, bydd eich llythyr cynnig ariannu yn pennu terfyn amser erbyn pryd y mae'n rhaid i'r project gael ei gwblhau. Bydd gofyn i chi hefyd adrodd ar gynnydd eich project yn flynyddol, ac yn unol â thelerau ac amodau eich cynnig grant.

Sut telir y grant?

Telir y grant yn unol â'r telerau a'r amodau a nodir yn y llythyr ariannu. Fel arfer bydd y grant yn cael ei dalu'n ôl-weithredol - gallai hyn achosi anawsterau gwirioneddol i sefydliadau bach yn amodol ar gyflwyno'r holl anfonebau/ derbynebau. Mewn amgylchiadau eithriadol, ystyrir taliadau fesul cam. Y peth gorau i'w wneud yw siarad â ni am eich sefyllfa ariannol, a byddwn yn gwneud ein gorau i drafod y dull gorau o dalu'r grant.

Beth yw'r amserlen gwneud cais?

Gwahoddir ceisiadau i'r **Gronfa Grantiau Cymunedau Cryf** dair gwaith bob blwyddyn. Caiff y ffenestr wahoddiad ei hysbysebu ar wefan Bro Morgannwg.

Rhaid i'ch cais fod yn gyflawn gyda'r holl atodiadau a'i gyflwyno ar ffurf copi caled neu e-bost erbyn 12 o'r gloch hanner dydd ar y dyddiad cau. Bydd ceisiadau a dderbynnir ar ôl y dyddiad cau yn cael eu dal yn ôl tan y rownd ymgeisio nesaf. Gallwch gyflwyno eich cais ar unrhyw adeg yn ystod y ffenestr. Cadwch mewn cysylltiad â ni, ac mae croeso i chi ofyn unrhyw gwestiynau.

Os yw eich cais yn llwyddiannus, byddwch yn derbyn llythyr ariannu a dogfennau cysylltiedig i'w llofnodi a'u dychwelyd. Bydd y pecyn yn egluro unrhyw amodau, y broses gymeradwyo a sut i gyflwyno cais am grant. Os oes gennych unrhyw gwestiynau ar y pwynt hwn, byddwn yn hapus i'ch helpu.

Pwy sy'n gwneud y penderfyniad a beth yw'r meini prawf asesu?

Bydd eich cais yn cael ei archwilio gan y Swyddog Grantiau perthnasol yng Nghyngor Bro Morgannwg, a gwneir unrhyw ymholiadau dilynol gyda chi. Yna bydd eich cais yn cael ei gyflwyno i banel gwerthuso grantiau ar gyfer ystyriaeth. Mae'r panel yn cynnwys y canlynol:

- Arweinydd y Cyngor
- Aelod o'r Cabinet gyda chyfrifoldeb dros Adfywio
- Un cynrychiolydd o Gyngor Tref
- Un cynrychiolydd o Gyngor Cymuned
- Un cynrychiolydd o bob un o unrhyw roddwyr arian trydydd parti cylchol
- Un cynrychiolydd o Wasanaethau Gwirfoddol Morgannwg
- Un cynrychiolydd o sefydliad aelod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
- Un cynrychiolydd o'r Waterloo Foundation

Efallai y bydd y panel grant yn dewis gosod amodau ar eich cynnig grant os yw'n llwyddiannus. Byddwch wedyn yn cael gwybod yn ysgrifenedig am benderfyniad y panel.

Bydd y panel yn asesu eich cais yn erbyn y meini prawf canlynol:

Meini Prawf Asesu

Bydd cynigion ar gyfer projectau Cronfa Grantiau Cymunedau Cryf yn cael eu sgorio drwy ddefnyddio'r raddfa sgorio ganlynol 0 – 25, i roi cyfanswm sgôr uchaf o 100. Ni fydd unrhyw gais yn symud ymlaen os yw'r sgôr yn llai na'r lleiafswm trothwy ansawdd o 60.

	Meini Prawf blaenoriaeth	Sgôr
1	Cyweddu strategaethau gyda: <ul style="list-style-type: none"> • Blaenoriaethau Cyngor y Fro • Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 	0 – 25
2	Gwerth am arian a chanlyniadau	0 – 25
3	Ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth lunio a chyflwyno'r project	0 – 25
4	Gwerth ychwanegol a chynaliadwyedd	0 – 25
	Cyfanswm	100

Maen prawf 1 – Cyweddu strategaethau
Sgôr hyd at 25

Peidiwch ag ofni'r adran hon! Os nad ydych yn siŵr sut mae eich project yn cyd-fynd â'r adran hon, peidiwch â phoeni - gofynnwch i un o'r tîm Datblygu Economaidd, a gallant roi rhai awgrymiadau i chi. Y syniad tu ôl i ddangos y cysylltiadau hyn yw gwneud yn siŵr bod projectau a ariennir yn berthnasol i flaenoriaethau'r Cyngor a Llywodraeth Cymru.

Cyfraniad at Flaenoriaethau Cyngor Bro Morgannwg

Mae angen i geisiadau fod yn gyson â gwerthoedd y Cyngor a nodir yn y Cynllun Corfforaethol sy'n cyfrannu at Ganlyniadau Llesiant y Cyngor.

Canlyniad 1: Bro chynhwysol a diogel

Lleihau tloedi ac eithrio cymdeithasol.
Darparu cartrefi gweddus a chymunedau diogel.

Canlyniad 2: Bro amgylcheddol gyfrifol a llewyrchus

Hyrwyddo adfywio, twf economaidd a chyflogaeth.
Hyrwyddo datblygu cynaliadwy a diogelu ein hamgylchedd.

Canlyniad 3: Bro uchelgeisiol a bywiog yn ddiwylliannol

Codi safonau cyflawniad cyffredinol.
Gwerthfawrogi diwylliant ac amrywiaeth.

Canlyniad 4: Bro egnïol ac iach

Annog a hyrwyddo ffyrdd o fyw egnïol ac iach.
Diogelu'r rhai sy'n agored i niwed a hyrwyddo byw'n annibynnol.

Dylai projectau allu dangos cyswllt ag un neu fwy o'r amcanion uchod. Ar gyfer projectau dros £1,000, nodwch sut mae eich project yn gyson â'r canlyniad(au) yr ydych wedi ei ddewis/ eu dewis. Ar gyfer projectau o dan £1,000, ticwch pa rai sy'n berthnasol i chi.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015

Mae a wnelo Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol â gwella llesiant Cymru.

Mae gan y Ddeddf 7 nod llesiant:

- Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang
- Cymru ffyniannus
- Cymru gydnerth
- Cymru iachach
- Cymru fwy cyfartal
- Cymru o gymunedau cydlynol
- Cymru o ddiwylliant bywiog lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu

Mae gan y Ddeddf 5 ffordd o weithio:

- Integreiddio
- Cydweithio
- Atal
- Tymor Hir
- Cymryd rhan

Dylai projectau allu dangos cyswllt ag un neu fwy o'r amcanion llesiant a ffyrdd o weithio uchod. Ar gyfer projectau dros £1,000, nodwch sut mae eich project yn cyd-fynd â'r rhai a ddewiswyd gennych. Ar gyfer projectau o dan £1,000, ticiwch pa rai yr ydych yn meddwl sy'n berthnasol i chi. Nid ydym yn chwilio am lawer o fanylion yn yr adran hon.

Gellir cael rhagor o wybodaeth am Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol [yma](#).

Ail-lunio Gwasanaethau

Mae'r Cyngor yn darparu rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau. Ceisia'r rhaglen hon ail-lunio'r Cyngor er mwyn ei alluogi i ddiwallu anghenion dinasyddion y Fro yn y dyfodol yng nghyd-destun heriau ariannol nas gwelwyd o'r blaen. **Dylai projectau sy'n cefnogi'r rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau hon sgorio'n dda yn erbyn maen prawf 1.**

Mae gan y Strategaeth dri amcan:

- I nodi ffyrdd amgen o gyflenwi gwasanaethau sy'n darparu gwell canlyniadau i ddinasyddion a/ neu ddulliau mwy effeithlon o gyflenwi
- I gwrdd â heriau ariannol tra'n lliniaru effaith y toriadau ar ddefnyddwyr gwasanaeth
- I ddatblygu'r Cyngor a'i bartneriaid er mwyn sicrhau eu bod yn gallu wynebu heriau'r dyfodol

Mae'r Cyngor yn cydnabod gwerth y cyfraniad sydd gan Gyngorau Tref a Chymuned a'r sector gwirfoddol i'w wneud; ceir project ymroddedig i ddatblygu'r cydberthnasau hyn a gweithio mewn partneriaeth ar brojectau penodol, gan gynnwys trosglwyddo asedau cymunedol.

Os gallwch ddangos sut mae eich project yn cysylltu â'n rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau, yna dylai sgorio hyd yn oed yn well.

Maen prawf 2 – Gwerth am arian a chanlyniadau **Sgôr hyd at 25**

Mae'r maen prawf hwn yn siarad drosto'i hun. Rydym eisiau gwybod beth yr ydych yn bwriadu ei gyflawni drwy eich project. Efallai y byddwch yn creu swyddi, gwella iechyd, creu arian ar gyfer eich mudiad, neu gymryd ymlaen ased yn eich cymuned. Rhowch syniad i ni o'r hyn yr ydych yn gobeithio ei gyflawni a faint fydd hyn yn ei gostio i ni. Mae gennym swm cyfyngedig o arian, a bydd projectau sy'n cyflawni mwy gyda'u grantiau yn sgorio'n uwch yn yr adran hon.

Maen prawf 3 - Ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth lunio a chyflwyno'r project
Sgôr hyd at 25

Dylai projectau gael eu datblygu mewn ymateb i wybodaeth leol fanwl a thystiolaeth gadarn o angen. Mae cymunedau lleol yn y sefyllfa orau i ddeall eu hamgylchiadau lleol ac i nodi'r rhwystrau a'r cyfleoedd sy'n eu hwynebu.

Dylai ymgeiswyr egluro **pwyl** yw eu rhanddeiliaid; **sut** maent wedi ymgysylltu â hwy yn ystod datblygiad y project a sut y byddant yn parhau i fod yn rhan o'i gyflenwi. Dylai ymgeiswyr egluro'r ffyrdd y mae'r project terfynol yn adlewyrchu canlyniad yr ymgysylltu â'r gymuned.

Maen prawf 4 – Gwerth ychwanegol a chynaliadwyedd
Sgôr hyd at 25

Dylai ymgeiswyr egluro'r gwerth ychwanegol a fydd yn deillio o'u project, y tu hwnt i'r gweithgareddau craidd y mae'n eu darparu ar hyn o bryd. Ystyriaeth allweddol wrth ddatblygu projectau ddylai fod sut y gall y project wella cadernid y sefydliad a lleihau'r ddibyniaeth ar arian grant yn y dyfodol. Ni allwn gefnogi costau craidd rhedeg eich sefydliad drwy ddefnyddio'r arian hwn.

Marchnata / Deunyddiau Hyrwyddo

Mae eich cynnig grant yn amodol ar y defnydd o logos y partneriaid ariannu ar farchnata cysylltiedig/ cynnyrch hyrwyddol e.e. taflenni, gwefannau, paneli dehongli. Ceir canllawiau penodol ar y mater hwn y bydd rhaid i chi eu dilyn e.e. maint y logos mewn perthynas â maint y ddogfen. Os ydych yn llwyddiannus gyda'ch cais am grant, byddwn yn rhoi'r wybodaeth hon i gyd i chi fel rhan o'ch llythyr ariannu.

A fyddaf angen monitro'r project?

Fel rhan o'ch cais, byddwch wedi amlinellu'r hyn yr ydych yn gobeithio ei gyflawni gyda'ch arian. Gallai hyn fod y nifer o unigolion sy'n elwa, yn cael hyfforddiant, neu brojectau ffisegol sydd wedi'u cwblhau. Byddwn yn rhoi y rhain yn eich cytundeb ariannu, ac wrth i chi adrodd i ni yn flynyddol neu ar ddiwedd eich project ar gynnydd. Os gwelwch yn dda, gweithiwch gyda'n swyddogion fel rhan o'r broses ymgeisio hon i nodi canlyniadau eich project.

Rhaid hysbysu Cyngor Bro Morgannwg os ydych yn bwriadu newid defnydd, neu werthu unrhyw adeilad neu gyfarpar a gafwyd, a adferwyd neu a adnewyddwyd drwy ddefnyddio'r grant hwn. Os nad yw hyn yn parhau i adlewyrchu amcanion y cynllun grant, gall VOGC adennill oddi wrthy ch arian hyd at gyfanswm y grant a dalwyd mewn perthynas â'r project am gyfnod o hyd at 5 mlynedd o'r taliad olaf o'r grant.

Dyddiad gwaredu'r ased(au)	Swm i'w ad-dalu
O fewn 1 flwyddyn	Arian i'w ad-dalu'n llawn
O fewn 2 flynedd	80% o'r arian i'w ad-dalu
O fewn 3 blynedd	60% o'r arian i'w ad-dalu
O fewn 4 blynedd	40% o'r arian i'w ad-dalu
O fewn 5 mlynedd	20% o'r arian i'w ad-dalu
Ar ôl 5 mlynedd	Dim o'r arian i'w ad-dalu

Faint o ddyfynbrisiau sydd angen i mi eu darparu?

Mae'r tabl tendro isod yn nodi'r weithdrefn sydd angen i chi ei dilyn. Gwnewch yn siŵr eich bod wedi cyflwyno'r wybodaeth briodol gyda'ch cais. Gallwn eich helpu gyda'r broses hon a'ch cyngori ar sut i lunio manylebau ar gyfer dyfynbrisiau a thendrau.

Gwybodaeth Tendr

Amcangyfrif Gwerth	Gweithredu Tendro sydd ei angen
O dan £250	Un dyfynbris ysgrifenedig gan gyflenwr unigol
£250 hyd at £5,000	Dyfynbrisiau ysgrifenedig gan leiafswm o ddau gyflenwr ar bapur pennawd neu e-bost gan y cyflenwr i'r un fanyleb. Cadwch gofnod o'ch fanyleb.
£5,001 hyd at £24,999	Dyfynbrisiau ysgrifenedig gan leiafswm o dri chyflenwr ar bapur pennawd neu e-bost gan y cyflenwr i'r un fanyleb. Cadwch gofnod o'ch fanyleb.
£25,000 hyd at £101,323	Paratoi meini prawf gwerthuso dyfarnu contract a manyleb fanwl. Gwerthuso mynegiadau o ddiddordeb. Paratoi a chyhoeddi gwahoddiadau i dendro. Bwrdd agor tendrau. Contract yn cael ei gymeradwyo a'i ddyfarnu.
£101,323 a throsodd	Rhaid i gontractau gael eu hysbysebu yn y Cylchgrawn Undeb Ewropeaidd (OJEU) swyddogol. Rhaid gosod hysbysiad dyfarnu contract yn OJEU (cyfnod hysbysebu am o leiaf ddeg diwrnod ar hugain). Gweithdrefn yr un fath ag ar gyfer mwy na £25,000.

Rhaid i'ch cais am arian grant gael ei gymeradwyo cyn dechrau'r gwaith. Ni fydd unrhyw arian grant ar gael ar gyfer gwaith a wnaed cyn i gymeradwyaeth ysgrifenedig gael ei chyhoeddi.

Rhaid i'r holl waith a gymeradwywyd gael ei gwblhau a rhaid i'r ymgeisydd gyflwyno tystiolaeth o daliad cyn i'r grant gael ei hawlio.

PWYSIG

Mae'n bwysig eich bod yn darllen y nodiadau hyn a'r canllawiau cam wrth gam i gwblhau eich ffurflen gais - byddant yn eich helpu i gwblhau eich cais yn gywir, ac yn helpu i osgoi unrhyw oedi wrth brosesu.